Pam mae'r trydydd sector yn bwysig i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Richard Newton

Mai 2024

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae gan y trydydd sector yng Nghymru gryn ddylanwad ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae Prosiect Iechyd a Gofal CGGC wedi cynnal ymchwil helaeth dros y tair blynedd diwethaf er mwyn helpu i ddeall y canlyniadau hyn ymhellach. Mae ein papur yn archwilio rôl mudiadau'r trydydd sector, lle mae 'pwynt cyswllt' gyda gwasanaethau statudol: Gwerthoedd a gwerth y trydydd sector: cydweithio â'r sector statudol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Archwilir rôl gwirfoddolwyr yn Gwerthoedd a gwerth gwirfoddoli – ein hased cudd. Mae ffeithlun yn crynhoi data perthnasol.

Mae'r papur cryno hwn yn dwyn ynghyd prif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn, gan gydnabod ar yr un pryd fod y rhan fwyaf o fudiadau'r trydydd sector yn cyfrannu at iechyd a gofal cymdeithasol heb gyfeiriad at gyrff y sector statudol neu ddarpariaeth gwasanaethau.

Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn cynnwys grŵp amrywiol o fudiadau annibynnol sy'n cael eu gyrru gan werthoedd ac sy'n gweithredu ar sail ddielw. Mae dros 12,000 o fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru yn cyfrannu at iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r mudiadau hyn yn cyflogi bron i 59,000 o bobl mewn 2,700 o leoliadau. Mae dros 60,000 o bobl yn gwirfoddoli mewn rolau iechyd a gofal cymdeithasol mewn elusennau yng Nghymru yn unig (heb gyfrif gwirfoddoli ar gyfer y sector cyhoeddus, grwpiau anghofrestredig a mentrau cymdeithasol).

Mae hyn yn wahanol i'r sector statudol, lle mae cyrff mawr (byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn bennaf) yn gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol gan weithredu o dan ddyletswydd ddeddfwriaethol sy'n penderfynu beth y gallant ac na allant ei gyflawni. O bryd i'w gilydd gellid cyflawni eu cyfrifoldebau drwy gontract allanol gyda mudiadau trydydd parti, gan gynnwys y trydydd sector.

Mae mudiadau'r trydydd sector yn darparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n dod o dan gwmpas iechyd a gofal cymdeithasol. Gall hyn gynnwys addysg iechyd, cyfeillio, eiriolaeth, datblygu cymunedol a chymorth llesiant. Mae llawer o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar yr hirdymor, gan

gynnig dull ataliol/ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn wahanol i wasanaethau statudol y mae eu blaenoriaeth yn aml yn ymwneud â chyflyrau cronig ac acíwt. O'r herwydd, mae gwaith y trydydd sector yn cyfoethogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn barhaus ar ran y cyrff statudol. Yn ein gwaith maes ymchwil, clywsom yn aml am y gwerth neu'r budd ychwanegol a ddarparwyd gan fudiadau'r trydydd sector. Yn aml, roedd yn well gan bobl y term 'budd' yn lle 'gwerth' gan ei fod yn adlewyrchu'n well y canlyniadau hirdymor, ataliol a llesiant a gyflawnir gan y trydydd sector, sy'n aml yn heriol i'w meintioli. Mae'r buddion hyn yn cael eu hategu gan nodweddion cyffredin allweddol mudiadau'r trydydd sector: maent yn ystwyth, yn wydn, yn gysylltiedig, yn annibynnol, yn ddibynadwy ac yn cael eu gyrru gan werth.

Mae gan y sector statudol a'r trydydd sector rolau hanfodol i'w chwarae o ran canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, ond y gwahaniaethau eu hunain (rhwng y ddau sector, a rhwng y mudiadau sy'n ffurfio'r trydydd sector) yw'r hyn a all, gyda'r amodau cywir, drawsnewid ymgysylltiad cymdeithas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae enghreifftiau da o hyn yn Llyfrgell Astudiaeth Achos Iechyd a Gofal Cymdeithasol CGGC.

O ystyried y pwysau difrifol ar wasanaethau statudol (yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol), mae'n hanfodol newid y ffordd y mae cymdeithas yn ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn ategu'r farn a fynegwyd yn Adroddiad Comisiwn Bevan, 'Sgwrs gyda'r Cyhoedd', ac yn 'Cymru Can: ein Gweledigaeth a'n pwrpas', fel y nodir gan Gomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ymyrraeth gynnar, llesiant a chamau gweithredu ataliol, fel sy'n cael eu darparu gan drydydd sector Cymru, yn cefnogi deddfwriaeth a pholisïau allweddol y llywodraeth gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (drwy Adran 16 – Fforymau Gwerth Cymdeithasol)
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, a
- Cymru Iachach.

Mae hyn yn creu fframwaith deddfwriaethol a all gefnogi'r trydydd sector i sicrhau budd y cyhoedd o safbwynt allbynnau iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau'r buddion iechyd a gofal cymdeithasol gorau posibl y gall y trydydd sector a'r sector statudol eu darparu ar y cyd, mae angen ecosystem lle gall y trydydd sector ffynnu. Mae'n rhaid bod:

- Perthynas deg sy'n seiliedig ar gryfderau rhwng y ddau sector.
- Ymddiriedaeth rhwng y ddau sector ac o fewn y ddau sector o ran rôl a gallu mudiadau'r trydydd sector.
- Cydgynhyrchu, yn seiliedig ar berthynas gynaliadwy hirdymor sy'n ymestyn y tu hwnt i gontractio a chadwyni cyflenwi.
- Cydnabyddiaeth: mae angen i bob sector, a'r cyhoedd, ddeall yn llawn y buddion y mae'r trydydd sector yn eu darparu.
- Cynrychiolaeth: mae angen i'r trydydd sector gael adnoddau priodol i sicrhau y gall chwarae rhan lawn ar fforymau strategol a chynllunio.

Er mwyn cyflawni hyn mae angen i ni:

- Gydnabod bod gwahaniaethau'r trydydd sector a'r sector statudol yn gryfderau.
- Datblygu, deall a chyfleu gwerth y trydydd sector o safbwynt canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran yr hyn y mae'r trydydd sector yn ei gyflawni tuag at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cefnogi mudiadau'r trydydd sector i godi arian o ffynonellau anstatudol.
- Y sector statudol i fabwysiadu prosesau adrodd cyson o ran ymgysylltu'n ffurfiol â'r trydydd sector a gwirfoddolwyr.
- Ariannu cynrychiolaeth y trydydd sector ar fforymau strategol/cynllunio ar lefel gyson a digonol ledled Cymru.
- Craffu ar gerbydau fel Fforymau Gwerth Cymdeithasol i sicrhau bod y trydydd sector yn cael ei gynnwys.
- Cydnabod bod perthynas ffyniannus yn ymwneud â mwy nag arian, ac y gall cydgynhyrchu drawsnewid sut mae pobl yn cydweithio.

- Osgoi creu bregusrwydd sefydliadol yn anfwriadol wrth ddatblygu gwasanaethau newydd, trwy ddibyniaeth nad yw'n gynaliadwy yn yr hirdymor
- Mae angen ymddiried yn yr holl bartïon (y sectorau statudol, y trydydd sector a'r sector preifat, a'r cyhoedd) a'u cydnabod fel rhanddeiliaid allweddol wrth sicrhau canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol buddiol.

CYNNWYS

Cefndir a chyd-destun	7
Iechyd a gofal statudol yng Nghymru	8
Trydydd sector Cymru ac iechyd a gofal cymdeithasol	9
Y pwysau ar ein system iechyd	10
Ystyriaethau cymdeithasegol	12
Cefnogaeth y trydydd sector ar gyfer canlyniadau iechyd a gofal	17
Cynnal a datblygu rôl y trydydd sector	22
Crynodeb a chamau gweithredu a argymhellir	27
Atodiad. Trydydd sector Cymru yn cyfoethogi canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol - tabl crynodeb	30

CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn chwarae rhan ddiamheuol wrth gefnogi cyflawniad canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol yng Nghymru (ac ar draws y DU) yn wynebu pwysau dwys, fel yr gwelwn yn nes ymlaen yn y papur hwn.

Ers 2020, mae CGGC wedi gweithio gyda rhanddeiliaid o'r trydydd sector a'r sector statudol i ddatblygu dealltwriaeth o sut y gellir manteisio i'r eithaf ar ddylanwad trydydd sector Cymru wrth weithio ochr yn ochr â darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol.

Mae clwstwr o bapurau ac aseiniadau ymchwil wedi cael eu comisiynu gan CGGC yn y cyfnod hwn gan gynnwys -

- Fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Ymarfer casglu data (heb ei gyhoeddi)
- Trydydd sector Cymru ac iechyd a gofal. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod. Yr hyn nad ydyn ni'n ei wybod
- Gwerthoedd a gwerth gwirfoddoli - ein hased cudd
- Gwerthoedd a gwerth y trydydd sector: cydweithio â'r sector statudol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (i'w gyhoeddi Mai 2024)

Mae'r rhain wedi cael eu llywio gan ymchwil desg ac ymgynghori drwy grwpiau ffocws a sgyrsiau strwythuredig.

Mae'r papur hwn yn ceisio amlygu canfyddiadau o'n gwaith ymchwil cefndir sydd wedi ei gyhoeddi, ac ymchwil ehangach, er mwyn nodi camau y gall gwahanol randdeiliaid eu cymryd, er mwyn creu'r amgylchedd sydd ei angen er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddylanwad y trydydd sector ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r papur yn amserol, ac yn adleisio themâu sy'n deillio o waith mudiadau eraill gan gynnwys Cymru Can: y weledigaeth hirdymor a

amlinellir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol[1], a Sgwrs Comisiwn Bevan gyda'r cyhoedd[2] yn myfyrio ar sut mae cymdeithas yn cymryd cyfrifoldeb am y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu a'u defnyddio.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL STATUDOL YNG NGHYMRU

Mae darpariaeth iechyd yn ddyletswydd statudol, gydag amrywiaeth o ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliant yn iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth drwy atal, diagnosis a thrin salwch.

Mae cyrff statudol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a GIG Cymru (drwy Fyrddau Iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG a chyrff eraill – Comisiwn Iechyd Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Technoleg Iechyd Cymru, a Galw Iechyd Cymru) yn gyfrifol am gyflawni canlyniadau iechyd. Mae'r GIG yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol yn bennaf, er bod rhai wedi'u contractio i fudiadau trydydd parti (gan gynnwys rhai yn y trydydd sector).

Mae cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â **chanlyniadau gofal cymdeithasol** yng Nghymru wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Er bod llawer o hyn yn cael ei ddarparu drwy ofal cartref a phreswyl, mae cwmpas gofal cymdeithasol yn ymestyn yn ehangach i gynnwys grwpiau bregus eraill, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o ofal, y digartref a'r rhai y mae dibyniaeth yn effeithio arnynt.

---

[1] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – Ein Gwaith – Cymru Can - Cymru Can: Ein Gweledigaeth a'n Pwrpas – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru cyrchwyd 23.04.24

[2] Comisiwn Bevan -Rhaglenni – Sgwrs gyda'r Cyhoedd - https://bevancommission.org/cy/programmes/a-conversation-with-the-public/- cyrchwyd 23.04.24)

Mae amgylchedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol cryn dipyn yn fwy cymhleth nag amgylchedd y ddarpariaeth iechyd. Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth, gall yr awdurdod lleol ei hun ddarparu gwasanaeth yn uniongyrchol, neu drwy rwydwaith o fudiadau dan gontract o'r sector preifat a'r trydydd sector.

TRYDYDD SECTOR CYMRU AC IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Ystod amrywiol o fudiadau sy'n rhannu cyfres o werthoedd a nodweddion yw'r **trydydd sector** yng Nghymru. Maen nhw'n cynnwys nid yn unig elusennau cofrestredig ond hefyd, er enghraifft, cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mentrau cymdeithasol a chymdeithasau tai. Mae mudiadau'r trydydd sector yn gweithredu ar sail nid-er-elw, yn annibynnol ar y llywodraeth. Mae mudiadau'n cael eu sefydlu'n wirfoddol gan unigolion sydd wedi'u cymell gan ddibenion cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol.

Yn sgil ymchwil ar gyfer ffeithlun Trydydd Sector CGGC 'Cymru ac iechyd a gofal. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod. Yr hyn nad ydyn ni'n ei wybod', cyfrifwyd bod dros 12,000 o fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru yn cyfrannu at ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae darpariaeth y trydydd sector yn digwydd drwy rwydwaith o fudiadau sy'n amrywiol o ran eu graddfa, cyrhaeddiad, llywodraethiant, adnoddau a modelau darparu. O ran cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol, gall mudiadau'r trydydd sector:

- Ddarparu gwasanaethau statudol yn uniongyrchol drwy drefniadau a gomisiynir gyda'r sector statudol.
- Gwella darpariaeth statudol y sector drwy weithgareddau fel cyfeillio a chymorth ar wardiau.
- Cefnogi lles cymdeithasol drwy weithgareddau eiriolaeth, hybu iechyd ac ymgysylltu.
- Datblygu gallu drwy addysg, hyfforddiant, ymchwil, cyllid, a chefnogaeth rhwydweithiau.

Mae hyn yn creu perthynas rhwng y tri sector fel y dangosir yn Ffigur 1:

Mae cysylltiad cryf rhwng gwirfoddoli â'r trydydd sector. O'n hymchwil data, amcangyfrifwyd bod dros 60,341 o bobl wedi gwirfoddoli ar gyfer elusennau iechyd a gofal wedi'u cofrestru yng Nghymru. Serch hynny, nid yw gwirfoddoli'n gyfyngedig i fudiadau'r trydydd sector gyda llawer o bobl yn gwirfoddoli hefyd o fewn mudiadau statudol a phreifat.



Ffig 1 Cyfraniad aml-sector i iechyd a gofal cymdeithasol

Y PWYSAU AR EIN SYSTEM IECHYD

Mae gwariant statudol ar iechyd a gofal cymdeithasol yn cynrychioli bron i 50% o gyllid Llywodraeth Cymru. Cyllideb ddrafft Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 yw £11.7 biliwn, sef 49.4% o'r cyfanswm ar gyfer holl adrannau Llywodraeth Cymru[3].

[3] Senedd Cymru – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024/25 – paragraff 13 - https://senedd.wales/media/uzyfrsxg/cr-ld16324-w.pdf cyrchwyd 28.03.24

Hyd yn oed gyda'r lefel hon o fuddsoddiad, mae heriau gweithredol sylweddol, fel y mae'r dyfyniadau canlynol yn tystio:

> 'Mae ein canfyddiadau yn dangos pwysau di-ildio ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru, ac er bod mentrau ar waith i helpu gwasanaethau gofal iechyd i ymdopi â'r galw cynyddol, ni chanfu ein gwaith yn ystod y flwyddyn hon unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y mentrau hyn yn gwneud gwahaniaeth clir a sylweddol i wasanaethau rheng flaen.[4]
>
> 'Mewn Adrannau Achosion Brys ledled Cymru, rydym wedi nodi gorlenwi, cleifion yn aros am gyfnodau hir i gael eu brysbennu a'u trin, ac oedi parhaus cyn i gleifion gael eu derbyn i'r gwelyau mwyaf priodol.[5]
>
> 'Ym maes Meddygaeth Gyffredinol a Deintyddiaeth, mae'r gallu i gael gafael ar wasanaethau'r GIG yn dal i beri pryder gwirioneddol i gleifion.[6]
>
> 'Dros y tymor hir, mae gweithgarwch ambiwlans ac adrannau argyfwng wedi cynyddu'n sylweddol ac ar raddfa llawer mwy na'r cynnydd cyfatebol ym mhoblogaeth Cymru.[7]

---

[4] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Adroddiad Blynyddol yn canfod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru - Adroddiad Blynyddol yn canfod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru | Arolygiaeth Gofal Cymru (agic.org.uk) cyrchwyd 28.03.24

[5] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Adroddiad Blynyddol yn canfod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru - Adroddiad Blynyddol yn canfod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru | Arolygiaeth Gofal Cymru (agic.org.uk) cyrchwyd 28.03.24

d[6] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Adroddiad Blynyddol yn canfod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru - Adroddiad Blynyddol yn canfod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal iechyd ledled Cymru | Arolygiaeth Gofal Cymru (agic.org.uk) cyrchwyd 28.03.24

[7] Llywodraeth Cymru - Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys ac argyfwng y GIG ym mis Mawrth 2023 - Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG: ar 31 Mawrth 2023 | LLYW.CYMRU cyrchwyd 28.03.24

> ‘Roedd dros filiwn o bresenoldebau mewn adrannau argyfwng yn y flwyddyn ddiwethaf, mwy na phum gwaith cymaint ag yn 1951.’[8]

Mae poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd ehangach a waethygwyd gan bandemig Covid a'r argyfwng costau byw, yn rhoi pwysau pellach ar y sector gofal cymdeithasol, sy'n wynebu cyfyngiadau sylweddol o ran capasiti.

Roedd dros 50 o arweinwyr GIG Cymru (Cadeiryddion, Is-gadeiryddion, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr) a arolygwyd gan Gydffederasiwn y GIG ym mis Awst 2020[9] yn cydnabod yn gyffredinol bod y gweithlu gofal mewn argyfwng, ac yn methu â recriwtio a chadw staff yn y sector.

YSTYRIAETHAU CYMDEITHASEGOL

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod angen newid i'r ffordd y mae cymdeithas yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod darpariaeth gynaliadwy yn cael ei datblygu, sy'n briodol ar gyfer poblogaethau modern. Mae hyn i bob pwrpas yn cydnabod bod llawer o'r pwysau presennol a wynebir yn bwysau strwythurol ac felly nid ydynt wedi’u cyfyngu o ran amser.

Mae'r gydnabyddiaeth hon wedi’i hategu gan ddyhead Cymru i ddatblygu fel cenedl llesiant fel y’i disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

---

[8] Llywodraeth Cymru - Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys ac argyfwng y GIG ym mis Mawrth 2023 - Tueddiadau yng ngweithgarwch gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG: ar 31 Mawrth 2023 | LLYW.CYMRU cyrchwyd 28.03.24

[9] Cydffederasiwn GIG Cymru - "Nid argyfwng yn unig mohono, mae'n argyfwng cenedlaethol": Mynd i'r afael â'r heriau ym maes gofal cymdeithasol - *https://www.nhsconfed.org/system/files/2022-09/EMBARGOED%20Addressing%20the%20challenges%20in%20social%20care%20-%20Welsh%20NHS%20Confederation%20-%2028%20September%202022.pdf (Saesneg yn unig) cyrchwyd 28.03.24

Mae **Cymru Can**[10] yn nodi strategaeth y Comisiynydd ar gyfer 2023-30. Mae iechyd a lles yn un o bum cenhadaeth ac fe'i cefnogir gan theori newid.

Mae rôl glir i'r trydydd sector mewn perthynas â'r gweithgareddau a'r canlyniadau theori newid canlynol:

- Rhoi dulliau hirdymor ac ataliol ar waith -
- Cynnull cyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol ac eraill i hwyluso cyfleoedd cyfnewid dysgu.
- Sicrhau bod mudiadau y tu allan i'r GIG yn defnyddio eu dulliau ysgogi i wella iechyd a lles
- Mae'r model iechyd cymdeithasol yn cael ei ddeall.
- Mae ystod fwy amrywiol o bobl yn ymwneud â chydgynhyrchu gwasanaethau.

Mae **Comisiwn Bevan** wedi cyhoeddi canlyniadau 'Sgwrs gyda'r Cyhoedd: Heriau a Chyfleoedd ar gyfer Newid (2023)[11]'. Ymgysylltwyd â phobl leol ledled Cymru mewn sgwrs agored a gonest am eu hiechyd a'u lles a dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi'r cyd-destun presennol a chrisialu gwybodaeth o'u profiadau, eu dealltwriaeth a'u disgwyliadau i helpu i nodi atebion ar gyfer y dyfodol.

Canfu Comisiwn Bevan fod saith thema gyson yn cael eu crybwyll gan y cyhoedd:

- Atal, ymyrraeth gynnar a ffordd o fyw
- Grymuso a rhannu cyfrifoldeb
- Gwasanaethau a chymorth integredig
- Penderfynyddion ehangach iechyd
- Cyfathrebu
- Pobl ar draws cymunedau

[10] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – Cymru Can: ein gweledigaeth a'n pwrpas - Cymru Can: Ein Gweledigaeth a'n Pwrpas – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - cyrchwyd 28.03.2024
[11] Comisiwn Bevan - Sgwrs gyda'r Cyhoedd: Heriau a Chyfleoedd ar gyfer Newid (2023) - Sgwrs gyda'r Cyhoedd - Comisiwn Bevan (bevancommission.org) cyrchwyd 28.03.24

- Gweithlu

Yn sail i'r themâu hyn roedd cysyniadau fel y cydbwysedd pŵer rhwng cynllunwyr/comisiynwyr gofal iechyd a defnyddwyr gwasanaethau; cyfrifoldebau a rennir; grymuso dinasyddion a chymunedau i gymryd rhan mewn gwaith cynllunio a darparu gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd a llesiant cymdeithasol.

Mae **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** yn ymchwilio i rôl cydweithio amlsector wrth gefnogi gweithredu cymunedol[12]. Mae'r adolygiad llenyddiaeth i ategu'r gwaith hwn yn tynnu sylw at y camau sydd eu hangen i ddatblygu cydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol.

Mae **cydweithio amlsectoraidd** yn golygu cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus a/neu lywodraeth leol a chenedlaethol, er enghraifft, *gyda* mudiadau neu grwpiau cymunedol, gwirfoddol a thrydydd sector.

Gweithredu Cymunedol - yw unrhyw weithgareddau, ffurfiol neu anffurfiol, sydd â'r nod o gefnogi llesiant unigolion a chymunedau ac a wneir gan grwpiau yn seiliedig ar ddaearyddiaeth a rennir neu ddiddordeb a rennir. Mae'r camau hyn yn perthyn i dri chategori: gweithgareddau ar gyfer proses a rennir, trefniadau llywodraethu a mecanweithiau ariannol, fel y'u crynhoir yn Ffigur 2.

[12] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru – Rôl cydweithio amlsectoraidd wrth gefnogi gweithredu cymunedol Rôl cydweithio amlsectoraidd wrth gefnogi gweithredu cymunedol | WCPP - cyrchwyd 28.03.24



Ffigur 2 Cydweithio amlsectoraidd ar gyfer gweithredu cymunedol

Mae'r ymchwil gan Gomisiwn Bevan a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a ddyfynnir uchod, yn amlygu'n glir yr achos cymdeithasegol dros newid, fel yr amlinellir yn Cymru Can. Serch hynny, mae angen amodau clir i greu eco-system lle gall y newid rydym am ei weld ddigwydd, gyda chefnogaeth cydweithredu amlsectoraidd.

Nododd grwpiau ffocws a gyflwynwyd fel rhan o'n gwaith ehangach ar gyfer CGGC rai amodau eang eu cwmpas ar gyfer llwyddiant o ran gwaith amlsectoraidd:

- Ymddiriedaeth a thegwch rhwng sectorau
- Cynllunio hirdymor
- Cynrychiolaeth effeithiol wrth wneud penderfyniadau
- Rhannu gwybodaeth a dysgu o arferion da
- Dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae'r amgylchedd polisi yng Nghymru yn creu sail ffafriol ar gyfer newid. Yn benodol:

- Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, gyda phartneriaid byrddau iechyd lleol i 'sefydlu fforymau rhanbarthol i gefnogi darparwyr sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r agenda gyffredin, a rhannu a datblygu arferion da. Nod y **Fforymau Gwerth Cymdeithasol** hyn yw annog sector gwerth cymdeithasol ffyniannus sy'n gallu ac sy'n barod i gyflawni cyfleoedd darparu gwasanaethau.'
- **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 (Cymru).** Mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus penodol yn sicrhau bod canlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol yn cael eu cyflawni drwy gadwyni cyflenwi.
- Mae Cymru Iachach, cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn cyflwyno'r achos dros ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol, h.y. system 'gwell iechyd', sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.
- Mae amryw o strategaethau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol i Gymru yn cydnabod pwysigrwydd strategol gwirfoddoli fel rhan o gynllunio'r gweithlu.

CEFNOGAETH Y TRYDYDD SECTOR AR GYFER CANLYNIADAU IECHYD A GOFAL

Mae mudiadau'r trydydd sector wedi cefnogi darpariaeth canlyniadau iechyd a gofal yng Nghymru ers tro. Er bod hyn weithiau'n cael ei gyflawni mewn partneriaeth â'r sector statudol (gyda neu heb gyllid), yn aml nid oes perthynas ffurfiol o'r fath. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r trydydd sector yn cynnig gwerth sylweddol tuag at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru yn ogystal â thuag at nodau llesiant ehangach.

Mae llyfrgell astudiaethau achos CGGC yn darparu llawer o enghreifftiau o'r themâu a nodir yn yr adran hon.

Cefnogi cyfrifoldeb statudol

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng yr achlysuron pan fo mudiadau'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau y mae cyfrifoldeb statudol i'w darparu, a darpariaeth gwasanaethau ehangach. Pan fo mudiadau'r trydydd sector yn darparu gwasanaeth y mae cyfrifoldeb statudol i'w ddarparu, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei ddarparu fel gwasanaeth a gomisiynwyd, o dan dendr cystadleuol ac yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus. Bydd y corff statudol wedi dod i'r casgliad, ar sail ei asesiad, ei bod er ei fudd gorau i gontractio gwasanaeth penodol i drydydd parti. Dyfernir contract ar sail proses dendro gystadleuol ac yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus. **Nid** yw hyn yr un fath â gwneud penderfyniad i roi'r gwasanaeth hwnnw yng ngofal y trydydd sector, yn seiliedig, er enghraifft, ar ei ffyrdd o weithio, ei gyrhaeddiad lleol a'i enw da, ac ati.

Mae enghreifftiau o ddarpariaeth trydydd sector dan gontract sy'n cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys:

- Cymorth gyda chyflyrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned h.y. dementia, Parkinsons
- Gweithgareddau iechyd y cyhoedd h.y. mentrau HIV sy'n canolbwyntio ar y gymuned, rhoi'r gorau i ysmygu
- Gwasanaethau adsefydlu
- Tai â chymorth

- Gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cefnogaeth i grwpiau penodol, e.e. pobl ifanc â phrofiad gofal, gofalwyr ifanc
- Eiriolaeth annibynnol ac ymweld â'r rhai mewn gofal statudol

Cefnogaeth ehangach

Mae llawer o'r gweithgarwch iechyd a gofal cymdeithasol y mae'r trydydd sector yn ei gyflawni **yn ychwanegol** at yr hyn y mae gofyniad statudol ar ei gyfer. Mae'r gweithgaredd hwn yn aml yn ategu ac yn cyfoethogi darpariaeth statudol a gall gynnwys:

- Cymorth llesiant ehangach i'r rheini/teuluoedd y rhai sy'n derbyn gofal iechyd. h.y. cynllunio ariannol ar gyfer y rhai sydd â salwch angheuol a'u teuluoedd.
- Cefnogaeth hosbis i'r rhai sydd angen gofal lliniarol.
- Gwybodaeth iechyd fel adnoddau ar y we a llinellau cymorth sy'n aml yn canolbwyntio ar gyflwr.
- Gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer carfannau poblogaeth sy'n derbyn gofal statudol fel cwnsela ar gyfer y rhai sydd â phrofiad o ofal a dysgu creadigol i'r rhai sy'n profi digartrefedd.
- Gweithgareddau cyfranogiad diwylliannol ac ehangach sy'n gysylltiedig â chyflyrau e.e. corau ar gyfer cleifion canser a'u cefnogwyr, grwpiau drama ar gyfer y rhai sy'n adfer a gweithgareddau rhagnodi cymdeithasol ehangach.
- Cymorth emosiynol a llesiant ar adegau tyngedfennol mewn taith iechyd a gofal e.e. cefnogaeth cymheiriaid, cyfeillion diwedd oes, partneriaid geni i ffoaduriaid.
- Cymorth seiliedig ar leoedd, yn aml ar lefel hyper-leol, gan weithio gyda thrigolion lleol i gefnogi byw'n annibynnol yn barhaus neu ddychwelyd i fyw'n annibynnol.
- Hybiau cynnes a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned i leihau unigedd.
- Datblygu seilwaith fel ambiwlansys awyr a beiciau gwaed.
- Ymchwil meddygol a gofal cymdeithasol drwy elusennau traddodiadol ac elusennau eithriedig fel Prifysgolion.

- Gweithio gyda chymunedau i nodi'r gwasanaethau y maent eu heisiau a'u grymuso i ddatblygu a gweithredu'r gwasanaethau hyn.

Mae cyfranogiad y trydydd sector wrth gyflawni allbynnau iechyd a gofal cymdeithasol wrth weithredu ar sail ddi-gomisiwn yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar yr hirdymor ac ar allbynnau llesiant ac ataliol (yn hytrach nag ymatebion acíwt neu gronig). Weithiau mae'r gweithgareddau yn canolbwyntio llai ar wella iechyd a mwy ar fyw'n iach, o fewn cyfyngiadau cydnabyddedig.

Gwerth a budd cyhoeddus

Mae'n her nodi'r gwerth penodol y mae mudiadau'r trydydd sector yn ei gyfrannu at iechyd a gofal cymdeithasol y genedl. Y rhesymau dros hyn yw:

- nid yw gweithgareddau'n cael eu cyflawni ar eu pen eu hunain ac felly mae'n anodd penderfynu ar eu cyfraniad unigryw.
- mae'n anoddach pennu effaith gweithgaredd meddalach/ataliol/llesiant, yn enwedig yn y tymor byr.
- mae llawer o fudiadau'r trydydd sector yn fach, gyda chapasiti cyfyngedig ar gyfer monitro a gwerthuso. Mae cyfansoddiad amrywiol y trydydd sector yn gwneud y gwaith o fesur effaith traws-sector unffurf yn heriol.

Amlygodd y trafodaethau a gynhaliwyd fel rhan o'n hymchwil fod llawer o gynrychiolwyr y trydydd sector yn anghyfforddus gyda'r term 'gwerth'. Mewn ecoleg gyflenwi yn seiliedig ar ystyriaethau ariannol, y farn oedd bod gan y term 'gwerth' gysylltiad cryf ag arian a thybiaeth y dylid ei ddangos drwy fesur meintiol. Roedd yn well gan bobl y term 'budd' gan ei fod yn adlewyrchu'n well effeithiau ansoddol, a hefyd ei fod yn cyd-fynd â'r cysyniad o fudd cyhoeddus sy'n sail i reoleiddio elusennau.

Roedd y term 'gwerth' yn aml yn gysylltiedig â phrosesau cystadleuol fel comisiynu'r sector cyhoeddus. Fel y nodwyd uchod, mae comisiynu gwasanaethau yn berthnasol i nifer gymharol fach o fudiadau'r trydydd sector. Wrth ymgeisio am waith a gomisiynir, fodd bynnag, mae'r cysyniad o werth yn dod yn fwy dwys.

Roedd mudiadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a gomisiynir yn awyddus i dynnu sylw at y gwerth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt. Roedd hyn yn cynnwys:

- Arian cyfatebol i unrhyw gynnig contract, gyda risg ar adegau bod dyletswydd statudol yn cael ei ariannu gan ffynonellau dyngarol. Gall hyn hefyd gynnwys cyfraniadau nad ydynt yn arian parod drwy wirfoddolwyr rhoddion mewn nwyddau.
- Mynediad at wasanaethau ehangach. Er enghraifft, mae llawer o fudiadau mwy y trydydd sector sydd ag enwau brand amlwg yn cynnal adnoddau gwybodaeth cenedlaethol mawr (ledled y DU yn aml); fe'u disgwylir gan ddefnyddwyr gwasanaethau, ond nid yw'r sector statudol yn talu amdanynt ar lefel contract.
- Eiddo deallusol, a ddatblygir yn aml gan fudiadau mawr y trydydd sector drwy weithgarwch arloesi/peilot, wedi'i ariannu o ffynonellau dyngarol.
- Rhyddhad o risg – o berthnasedd arbennig mewn oes o gynnydd mewn costau cyflogau a chostau ynni, roedd contractau aml-flwyddyn yn diogelu darparwyr statudol rhag risgiau o'r fath o fewn cyfnod contract pris sefydlog.

Nodwyd rhai o nodweddion cyffredin mudiadau'r trydydd sector yn ein hymchwil, sy'n cefnogi eu gallu i sicrhau gwerth / budd cyhoeddus drwy eu gweithgareddau gweithredol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn Ffigur 3 isod.



Ffigur 3 Nodweddion cyffredin mudiadau'r trydydd sector

Dywedodd cyfranogwyr grwpiau ffocws ar draws y sectorau statudol a'r trydydd sector fod y budd/gwerth mwyaf yn cael ei ddarparu pan fo'r cydweithio wedi'i gynllunio rhwng sectorau, ac o fewn y trydydd sector ei hun. Roedd tystiolaeth o astudiaethau achos grymus tebyg i'r isod:

- Roedd byrddau iechyd yn cydnabod y buddion i gleifion drwy weithio gydag elusennau cyflwr blaenllaw sy'n gallu darparu ystod ehangach o wasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth hygyrch, cefnogaeth cymheiriaid, cymorth llesiant i'r claf a'r teulu a'u ffrindiau.
- Roedd Cymorth Canser MacMillan yn cydnabod y budd o weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydliad datblygu cymunedol cydnabyddedig ac uchel ei barch sy'n cefnogi ardaloedd yr hen feysydd glo lle mae lefelau uchel o ddiagnosis canser hwyr fel arfer o fewn y boblogaeth wrywaidd. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi galluogi gwasanaethau addysg a phrofi i wella lefelau profi ac atal yn y gymuned hon.
- Roedd mudiadau mawr y trydydd sector sy'n ymgeisio'n rheolaidd i ddarparu gwasanaethau o dan drefniadau a gomisiynir yn

cydnabod bod darpariaeth lwyddiannus yn aml yn ddibynnol ar feithrin perthynas effeithiol â'r llu o fudiadau cymunedol eu natur sy'n gwasanaethu cymuned benodol o ddiddordeb neu ddaearyddiaeth.
- Cydweithio aml-sectoraidd fel PIVOT yn Sir Benfro lle mae partneriaeth o fudiadau'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd lleol i atal derbyniadau i'r ysbyty, ac i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Er ei bod yn heriol gosod gwerth meintiol ar y cyfraniad mae'r trydydd sector yng Nghymru yn ei wneud tuag at allbynnau iechyd a gofal, mae'n amlwg o drosolwg o natur a graddfa'r gweithgareddau a ddarperir ei fod yn sylweddol. Heb y cyfraniad hwn byddai iechyd a lles pobl yng Nghymru yn dioddef.

CYNNAL A DATBLYGU RÔL Y TRYDYDD SECTOR

Mae angen cynnal cyfraniad y trydydd sector at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol a, lle bo hynny'n bosibl, ei ddatblygu. Mae dwy ystyriaeth ar waith yma: cynnal y trydydd sector yn ei gyfanrwydd a datblygu ei rôl mewn perthynas â chanlyniadau iechyd a gofal.

i. Cynnal y trydydd sector yn ei gyfanrwydd

Mae'r pwnc hwn yn deilwng o bapur yn ei rinwedd ei hun; serch hynny, ar ôl nodi yn y papur hwn y pwysau llym sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, byddai'n amhriodol peidio â chyfeirio at y pwysau sylweddol y mae mudiadau'r trydydd sector hefyd yn eu hwynebu.

Mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi rhoi cryn bwysau ar fudiadau'r trydydd sector mewn gwahanol ffyrdd:

- Mwy o alw am wasanaethau yn sgil heriau cymdeithasol ac anghydraddoldebau.
- Costau cyflenwi uwch, yn enwedig yn ymwneud â staff ac ynni.

- Gostyngiad mewn lefelau gwirfoddoli ar ôl y pandemig.[13]
- Heriau'r gweithlu, oherwydd bod cyflogau'r trydydd sector yn is na chymheiriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.
- Llai o incwm – o gontractau'r sector cyhoeddus (e.e. prisiau sefydlog aml-flwyddyn yn methu â chodi gyda chwyddiant), a gostyngiad ehangach mewn rhoddion dyngarol.

Archwilir hyn ymhellach ym mlog CGGC, 'Canlyniad ôl-ystyriaeth'[14].

Mae goroesiad y trydydd sector yn amlwg yn sail i allu'r trydydd sector i gefnogi canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

ii. Cynnal a datblygu rôl y trydydd sector o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol

Mae gwaith ymchwil yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu sawl thema a fyddai'n galluogi cydfodolaeth gadarnhaol rhwng y ddau sector.

Perthynas deg, sy'n seiliedig ar gryfderau

Amlygodd trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector statudol fod cysylltiadau yn hanfodol i ddatblygu'r buddion a ddarperir gan y trydydd sector. Roedd y rhain yn anffurfiol ac yn ffurfiol fel ei gilydd, ac mae cryfderau cysylltiadau â'r trydydd sector yn amrywio rhwng cyrff statudol ac o fewn cyrff statudol, yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol aelodau staff/adrannau.

Nid yw'r trydydd sector a'r sector statudol yn gyfartal, ond gallai'r berthynas fod yn fwy teg. Er enghraifft, mae gan y sector statudol fynediad at arian cyhoeddus ac mae'n rhaid i'r sector hwn gyflawni o fewn fframwaith rheoleiddio ac arolygu. Mae'r trydydd sector i raddau yn fwy rhydd o hyn. Ni all y naill barti na'r llall ddyblygu gwaith na phwrpas y llall, ond drwy weithio gyda'i gilydd mae dylanwad y ddau yn cynyddu.

---

[13] NCVO – Newyddion a Mewnwelediadau - https://www.ncvo.org.uk/news-and-insights/news-index/latest-research-reveals-mixed-impact-of-pandemic-on-volunteering/ (Saesneg yn unig) cyrchwyd 01.04.24

[14] CGGC – Gwybodaeth a Chefnogaeth – Canlyniad ôl-ystyriaeth - Canlyniad ôl-ystyriaeth - CGGC (wcva.cymru) cyrchwyd 01.04.24

Y gwahaniaethau rhwng y sectorau yw'r cryfderau sy'n sail i'r budd posibl y gellir ei gyflawni. Er nad yw'r ddau sector yn gyfartal, gallant weithio gyda thegwch gan gydnabod cryfderau a phwysigrwydd ei gilydd.

Mae'r angen am berthynas deg hefyd yn berthnasol i gysylltiadau rhwng mudiadau yn y trydydd sector. Un o gryfderau'r trydydd sector yw ei amrywiaeth a'i raddfa, ac mae rôl i bawb sy'n darparu gwasanaethau o safon.

Ymddiriedaeth

Yn gysylltiedig â'r cysyniad o degwch a pherthynas sy'n seiliedig ar gryfderau, mae thema ymddiriedaeth. Mae ystwythder ac annibyniaeth y trydydd sector yn un o'i gryfderau. Mae angen i'r sector statudol gydnabod hyn, a heblaw pan fo mudiadau'r trydydd sector yn gweithredu'n uniongyrchol fel asiant y sector cyhoeddus, mae angen cydnabod bod mudiadau'r trydydd sector yn endidau dan arweiniad annibynnol sy'n ymgorffori'r gwerthoedd sydd, mewn llawer o achosion, yn cael eu rhannu gan bartneriaid y sector statudol.

Mae cyfathrebu agored yn arwydd o ymddiriedaeth. Nododd llawer o fudiadau'r trydydd sector eu bod yn gyndyn o feirniadu gweithgareddau'r sector statudol rhag ofn y byddai'n cael effaith negyddol ar berthynas waith (gan gynnwys mynediad at unrhyw gyllid).

Rhaid i'r sector statudol gydnabod ei annibyniaeth a'i gyfrifoldeb i'r cymunedau y mae'r trydydd sector yn eu gwasanaethu. Mae angen i'r trydydd sector allu bod yn gyfaill beirniadol i'r sector statudol, gan nodi materion sy'n peri pryder neu faterion o welliant, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth y trydydd sector ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd a'i rwymedigaeth i hynny.

Mae cydweithio yn ymwneud â mwy nag arian

Yn aml, mae ystyriaethau ariannol yn drech mewn trafodaethau a dadansoddiadau o ran y berthynas rhwng y ddau sector. Mewn gwirionedd, gwyddom mai dim ond nifer fach o fudiadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n derbyn grant a/neu incwm a gomisiynir gan y sector statudol.

Gall cydweithio gynnwys:

- Croesgyfeiriadau
- Safle a chyfleusterau a rennir
- Cyfnewid gwybodaeth
- Cydgynhyrchu a chynllunio mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

Pan fo arian yn cael ei gyfnewid o'r sector statudol i'r trydydd sector, gall hyn fod drwy incwm contract/comisiwn neu, yn llai cyffredin (ac ar symiau is), drwy gymorth grant.

Mae llawer o heriau ynghlwm â'r broses gomisiynu i fudiadau'r trydydd sector. Maent yn ymwneud ag amserlenni, graddfa (daearyddiaeth, maint yr amlen ariannol, ac ati) a natur y rhwymedigaethau cytundebol, ac maent y tu hwnt i gwmpas y papur hwn.

Weithiau mae cyllid grant bach ar gael gan gyrff statudol. Clywsom yn ystod ein gwaith maes ymchwil sut mae awdurdodau lleol yn cefnogi mudiadau bach ar lawr gwlad, weithiau drwy eu Cyngor Gwirfoddol Sirol gyda chyllid (yn aml yn deillio o Lywodraeth Cymru). Mae'r thema ar gyfer ariannu yn newid o un flwyddyn i'r llall - er enghraifft unigedd, hybiau cynnes. Amlygodd nifer o'r mudiadau sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwneud cais am y cyllid hwn fod yr hyn yr oedd ei angen ar y mudiadau hyn yn fwy na chyllid prosiect oedd lefel isel o gyllid craidd. Dadleuwyd pe bai gan ardal rwydwaith gref o fudiadau cymunedol, byddai materion fel unigedd a darparu mannau cynnes yn cael eu darparu'n naturiol.

Mae grantiau mwy yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol[15] fel y'i cyflwynir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod cyfran o'r cyllid hwn wedi'i chlustnodi ar gyfer y sector gwerth cymdeithasol (ac felly dylai gyrraedd mudiadau'r trydydd sector), mae llawer o hyn wedi'i fwriadu ar gyfer gweithgarwch peilot. Mae'n amlwg bod gweithgarwch

[15] Llywodraeth Cymru – Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-02/y-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-canllawiau-refeniw-2022-2027.pdf - cyrchwyd 03.04.24

peilot ac arloesedd yn bwysig, ond dywedodd llawer bod diffyg cyswllt rhwng y cynlluniau peilot a sut y cawsant eu gwerthuso gan arianwyr (yn statudol ac yn ddyngarol fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol), a'r diffyg llwybr tuag at ei droi'n weithgaredd prif ffrwd. Arweiniodd hyn at y gweithgaredd yn stopio ac yn dechrau, a bylchau ariannu sy'n cyflwyno heriau sylweddol.

Mae gwersi clir i fudiadau ar draws y sectorau statudol a'r trydydd sector mewn perthynas â strategaethau ymadael a chynaliadwyedd. O ystyried pwysau ariannol presennol, yn enwedig o fewn y sector statudol, nid yw'n briodol datblygu gwasanaethau heb bersbectif hirdymor, gan gynnwys cynllun ar gyfer adnoddau yn y dyfodol.

Cydnabod cyfraniad y trydydd sector tuag at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol

Mae gallu cydnabod y budd/gwerth a ddarperir gan y trydydd sector yn hanfodol os yw perthynas waith gyda'r sector statudol am ddatblygu. Rydym eisoes wedi nodi bod cryfder/dyfnder y berthynas waith ar draws y ddau sector yn amrywiol, yn aml yn seiliedig ar wybodaeth/profiad staff. Mae gallu cydnabod cyfraniad y trydydd sector yn allweddol i sefydlu cysylltiadau cryfach a mwy unffurf.

Mae hyn yn arbennig o heriol o ystyried amrywiaeth y sector. Mae ymchwil gan CGGC wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw hyn yn aml yn cael ei gofnodi, ei adrodd na'i adolygu, hyd yn oed pan fo perthynas uniongyrchol rhwng sefydliad statudol a thrydydd sector.

O ystyried bod yn rhaid i'r sector statudol flaenoriaethu gweithgareddau (ar draws yr holl adnoddau, nid cyllid allanol yn unig), yn seiliedig ar ddangosyddion fel enillion ar fuddsoddiad, yn aml o fewn cyfnodau cynllunio tymor byr/tymor canolig, mae angen gwell dealltwriaeth o ôl troed gweithgarwch y trydydd sector/gwirfoddolwyr a ddarperir drwy bartneriaethau ffurfiol rhwng mudiadau statudol a'r trydydd sector sy'n darparu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynrychiolaeth

Mae cyrff y sector statudol (awdurdodau lleol a byrddau iechyd) yn gyfyngedig o ran eu nifer, ac yn helaeth o ran eu cyrhaeddiad a'u maint, o'u cymharu â'r sefydliad trydydd sector nodweddiadol yng Nghymru. O'r herwydd, mae cyferbyniad rhwng y miloedd o fudiadau annibynnol yn y trydydd sector a'u cyfoedion yn y sector statudol ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r ddau sector gynllunio a/neu ddarparu gweithgareddau ar y cyd. O ystyried y fantais sydd gan fudiadau'r trydydd sector o ran ymgysylltu â chymunedau daearyddol/diddordeb penodol, gall hyn, yn ei dro, gyfyngu ar allu'r sector statudol i ymgysylltu â rhai o'r cymunedau y mae'n orfodol iddynt eu cefnogi.

Er bod gan y trydydd sector gynrychiolaeth ar lefel strategol (drwy rolau ar Fyrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol), mae perygl bod dim adnoddau/dim digon o adnoddau i gyflawni'r rolau hyn. Er bod cynrychiolaeth y trydydd sector yn cael ei diogelu gan ddeddfwriaeth, dim ond os oes adnoddau digonol y mae hyn yn effeithiol.

Mae angen adolygu adnoddau cynrychiolaeth. Bydd cynrychiolaeth effeithiol o'r trydydd sector mewn byrddau strategol yn sicrhau lefel uwch o fudd/gwerth. Mae disgwyl i gynrychiolwyr gynrychioli portffolio eang o fudiadau ond mae hyn ond yn bosibl os oes ganddynt yr adnoddau i ymgysylltu'n llawn â'r rhai y maent yn eu cynrychioli.

CRYNODEB A CHAMAU GWEITHREDU A ARGYMHELLIR

Mae darparu iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol yng Nghymru yn hanfodol i bob un ohonom, fel mudiadau ac fel dinasyddion. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y papur hwn, gallwn ddod i'r casgliad bod:

- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol yng Nghymru (fel mewn mannau eraill ar draws y DU) yn wynebu pwysau digynsail.
- Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol statudol, ac fel sector mae'n wynebu pwysau o ran adnoddau ei hun.

- Mae tystiolaeth gymdeithasegol yn awgrymu bod angen i ni weithio fel cymdeithas i ailddiffinio ein disgwyliadau a'n defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Bydd hyn yn golygu newid i ganolbwyntio mwy ar lesiant a gwasanaethau ataliol, a grymuso'r cymunedau i ddatblygu'r gwasanaethau y maent eu heisiau.
- Mae gan y trydydd sector botensial sylweddol i gyfrannu at y gwaith ailffocysu hwn o ran gweithgareddau, drwy ei allu i ddarparu gweithgareddau a'i allu i ymgysylltu â chymunedau o ddiddordeb a daearyddiaeth ledled Cymru.

Bydd yr amodau a drafodir uchod yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n galluogi, lle gall y trydydd sector ffynnu, gyda'i holl ystwythder nodweddiadol, ei ymatebolrwydd a'i annibyniaeth, a gellir diwallu anghenion y rhai y mae'n eu cynrychioli yn effeithiol. I'r perwyl hwn, argymhellir y camau canlynol:

i. Mae angen i bob sector **gydnabod y gwahaniaethau** (rhwng y sectorau statudol a'r trydydd sector ac o fewn y trydydd sector ei hun) fel cryfder, nid problem. Ni ddylai trefniadau cydweithio atal ystwythder, gwytnwch ac annibyniaeth mudiadau'r trydydd sector.

ii. Dylai'r trydydd sector **archwilio ar y cyd sut i gyfleu ei 'gynnig o ran gwerth**' mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol fel y gellir deall hyn yn ehangach.

iii. Cynnal **ymgyrchoedd cyfathrebu** i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymwybyddiaeth wleidyddol o'r buddion sefydledig a'r buddion posibl y mae'r trydydd sector yn eu cyflawni tuag at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol. Gall ymgysylltu â'r cyhoedd fel eiriolwyr amlygu ei hun drwy roddion, gwirfoddoli a mwy o gefnogaeth i'r trydydd sector fel blaenoriaeth wleidyddol gydag aelodau etholedig yn lleol ac yn genedlaethol.

iv. Cefnogi mudiadau'r trydydd sector, (yn enwedig mudiadau llai), i **arallgyfeirio incwm** mewn modd addas. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ofyn am gymorth ar lefel leol (mae gan Local Giving dystiolaeth gref bod hyn yn gweithio), a chefnogaeth genedlaethol i BBaChau i alluogi gweithredu gan ddinasyddion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

v. Dylai cyrff statudol rhanbarthol a chenedlaethol (dan arweiniad Llywodraeth Cymru) fabwysiadu **prosesau adrodd cyson a thryloyw** ynghylch lefel eu hymgysylltiad ffurfiol â'r trydydd sector a gwirfoddolwyr.

vi. Sicrhau lefel briodol a chyson o **gyllid ar gyfer cynrychiolaeth y trydydd sector** ar grwpiau rhanddeiliaid strategol ledled Cymru, o ystyried gofynion cyfreithiol y sector statudol i sicrhau cyfranogiad y trydydd sector o ran dylunio a darparu gwasanaethau a'r effaith y gellir ei chyflawni drwy gyd-ddarparu gyda'r trydydd sector

vii. **Sicrhau bod gan y trydydd sector y cyfle a'r modd i gyfrannu'n llawn** at fforymau gwerth cymdeithasol ac fel partner allweddol wrth gyflawni gweledigaethau fel Cymru Can.

viii. Hyrwyddo cydnabyddiaeth bod **cydweithio rhwng y trydydd sector a'r sector statudol yn seiliedig ar fwy na chyfnewid ariannol**. Gall hefyd fod ar ffurf rhannu gwybodaeth a phrofiad, rhannu defnydd safleoedd, neu hyfforddiant ar y cyd, er enghraifft

ix. **Osgoi creu dibyniaeth anghynaladwy** wrth ddatblygu gwasanaethau, - ystyried yr effaith hirdymor ar wasanaethau, mudiadau a chysylltiadau, h.y. y tu hwnt i'r cyfnod cyllido.

x. **Grymuso pob parti i gydnabod a chwarae eu rôl unigryw a hanfodol** fel rhan o ecoleg gymhleth iechyd a gofal yng Nghymru. (h.y. sectorau statudol, trydydd a phreifat, yn ogystal â'r cyhoedd) i gyfrannu at iechyd a gofal cymdeithasol yn eu ffyrdd unigryw eu hunain, gan gydnabod y rolau hanfodol y gall pob un eu chwarae.

ATODIAD: TRYDYDD SECTOR CYMRU: CYFOETHOGI CANLYNIADAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL					
Cyfraniad y trydydd sector	Trydydd Sector datblygedig sy'n cyfoethogi darpariaeth statudol ar gyfer cymunedau (daearyddol a diddordeb), drwy waith ataliol sy'n canolbwyntio ar lesiant dinasyddion, yn ogystal â thrwy weithrediadau iechyd a gofal cymdeithasol uniongyrchol mewn partneriaeth â'r sector statudol.				
Cryfderau	**Mae mudiadau'r trydydd sector yn**: ystwyth, gwydn, cysylltiedig, annibynnol, dibynadwy, ac wedi'u gyrru gan werthoedd. **Mae'r trydydd sector yn amrywiol**: o ran graddfa, daearyddiaeth, strwythurau llywodraethu, modelau darparu.				
Amodau sy'n ofynnol i fudiadau'r trydydd sector ffynnu	**Perthynas gyfartal, sy'n seiliedig ar gryfderau** Mae'r berthynas rhwng mudiadau'r trydydd sector a'r sector statudol yn seiliedig ar egwyddorion tegwch. Mae mudiadau'n parchu gwahaniaethau a chryfderau e.e. rhyddid y trydydd sector rhag cyfyngiadau deddfwriaethol, ac ehangder maint - 'micro' i 'mega'.	**Ymddiriedaeth** Mae cysylltiadau, ar draws mudiadau'r trydydd sector a rhwng y trydydd sector a'r sector statudol, yn ymddiried yn hanes y sector, o ran gallu, annibyniaeth, gwerthoedd ac ystwythder. Mae cyfathrebu'n dda. Nid yw monitro yn or-feichus	**Cydgynhyrchu** Mae cydgynhyrchu a chynllunio gyda'r trydydd sector yn sicrhau bod canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor yn cael eu cyfoethogi i bawb. Mae trydydd sector ag adnoddau digonol yn cefnogi cyfnewid gwybodaeth, llesiant dinasyddion ac arloesedd.	**Cydnabyddiaeth** Mae pob sector, a'r cyhoedd, yn deall ac yn cydnabod y manteision y mae'r trydydd sector yn eu darparu. Mae llesiant ac effaith hirdymor yn cael eu cydnabod mewn ffyrdd y gellir eu deall yn erbyn cylchoedd cynllunio tymor byrrach.	**Cynrychiolaeth** Mae'r trydydd sector ag adnoddau i sicrhau y gall gynrychioli ei ehangder a'i amrywiaeth yn llawn ar fforymau strategol a chynllunio.
Argymhellion ar gyfer ecoleg iechyd a gofal	**Cydnabod gwahaniaethau** rhwng	**Adeiladu ar ymddiriedaeth** (ar	**Cefnogi mudiadau'r trydydd sector** mewn	**Cyfleu gwerth y sector**–e.e. drwy	**Sicrhau bod adnoddau ar gyfer cynrychiolaeth**

cymdeithasol ffyniannus	mudiadau'r trydydd sector a statudol fel cryfderau	draws y sectorau statudol, y trydydd sector a'r sector preifat, a'r cyhoedd) a'u cydnabod fel rhanddeiliaid allweddol wrth sicrhau canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.	amrywiaeth o ffyrdd, ariannol ac anariannol, gan gydnabod bod cysylltiadau ffyniannus, cydfuddiannol yn ymwneud â mwy nag arian. Osgoi cysylltiadau sy'n anghynaladwy	adrodd cyson gan y sector statudol am ei ymgysylltiad ffurfiol â'r trydydd sector a gwirfoddolwyr, a thrwy negeseuon clir i'r cyhoedd	ar fforymau strategol/cynllunio ar lefel gyson a digonol gan gynnwys ar fforymau gwerth cymdeithasol.
Cefnogi polisi, deddfwriaeth ac ati	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Cymru, Cymru Iachach, papurau CGGC, Cymru Can, Sgwrs Genedlaethol Bevan.				